Hawdd ei Ddeall

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Adroddiad ar Wasanaethau Niwroddatblygiadol

## Sut i wella gwasanaethau i bobl gyda chyflyrau niwroddatblygiadol



Mae'r ddogfen yma wedi cael ei threfnu ac wedi cael ei thalu amdani gan **Lywodraeth Cymru**. Mae wedi cael ei hysgrifennu gan **Pobl a Gwaith**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o '**Adolygiad o'r Galw, Capasiti a Dyluniad Gwasanaethau Niwroddatblygiadol: Adroddiad Cryno**'.

**Ionawr 2023**

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma ddogfen hawdd ei deall. Ond efallai eich bod angen help i'w darllen. Gofynnwch i rhywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu chi.



Efallai bod y geiriau mewn **ysgrifen glas trwm** yn anodd eu deall. Mae beth mae'r geiriau mewn glas yn feddwl ar **dudalen 32**.

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Pobl a Gwaith,** yn gweithio i **Lywodraeth Cymru**. Am ragor o wybodaeth cysylltwch gyda:

**Gwefan:** llyw.cymru/adolygiad-o-wasanaethau-niwroddatblygiadol

**E-bost:** neurodiversity:gov.wales

Mae'r fersiwn hawdd ei ddeall yma wedi cael ei ysgrifennu gan **Hawdd ei Ddeall Cymru**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.

# Cynnwys

**Tudalen**

**Cyflwyniad.........................................................................4**

**Beth rydyn ni wedi ei wneud......................................6**

**Beth rydyn ni wedi ei ddysgu.....................................8**

**Syniadau i wneud pethau yn well...........................21**

**Nodau.........................................................................23**

**Geiriau Anodd..............................................................32**

# Cyflwyniad




Dyma adroddiad am wasanaethau **niwroddatblygiadol** yng Nghymru.

Cyflwr **niwroddatblygiadol** ydy pan mae'r ymennydd wedi datblygu mewn ffordd gwahanol.

Mae hyn yn gallu effeithio ar ymddygiad, cof neu allu person i ddysgu. Mae'n meddwl pethau fel **ADHD** ac **Awtistiaeth.**




Mae gwasanaethau **niwroddatblygiadol** yng Nghymru yn cynnig **asesiadau diagnostig**.

**Asesiad diagnostig** ydy pan mae gweithwyr iechyd proffesiynol yn edrych ar bethau fel eich iechyd a'ch ymddygiad i weld os oes gennych chi gyflwr niwroddatblygiadol neu beidio.

Mae hyn yn cael ei wneud drwy **asesiad** fel profion, cwestiynau ac edrych drwy eich hanes.

Os oes gennych chi gyflwr rydych chi'n cael **diagnosis.**



Maen nhw hefyd yn cynnig cefnogaeth, gwybodaeth a chyngor i bobl gyda chyflyrau **niwroddatblygiadol**.



Fe wnaethon ni edrych ar wasanaethau **niwroddatblygiadol** i blant, pobl ifanc ac oedolion yng Nghymru, Roedden ni eisiau:

- darganfod ffyrdd newydd o wella gwasanaethau **niwroddatblygiadol**
- a lleihau'r pwysau ar y gwasanaethau yma.




Fe wnaethon ni edrych yn bennaf ar:

- **Gwasanaethau niwroddatblygiadol plant**
- Gwasanaethau **ADHD** oedolion
- A'r **Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig (IAS)** i oedolion.



Ac fe wnaethon ni ganolbwyntio ar **Awtisitaeth** ac **Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd** neu **ADHD.**

# Beth rydyn ni wedi ei wneud




Fe wnaethon ni edrych ar y cynlluniau, rheolau a chanllawiau ar gyfer gwasanaethau **niwroddatblygiadol**. Ac ar yr wybodaeth mae gwasanaethau **niwroddatblygiadol** yn ei roi.



I ysgrifennu'r adroddiad fe wnaethon ni holi:

- dros 70 o bobl o wahanol grwpiau
- 7 o rieni a gofalwyr.
- A 9 oedolyn yn defnyddio'r **Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig**.




A defnyddio holiaduron o:

- 14 oedolion
- 30 rhieni a gofalwyr
- 29 gweithwyr proffesiynol



Roedd 2 weithdy hefyd i siarad am beth wnaethon ni ei ddarganfod.



Fe wnaethon ni ddechrau gweithgor i siarad am ffyrdd newydd o wella gwasanaethau a sut roedd hyn  yn gallu cael ei wneud.

# Beth rydyn ni wedi ei ddysgu

## Yr angen am asesiadau diagnostig



Mae llawer o bobl eisiau **asesiad.**



Mae gwasanaethau **niwroddatblygiadol** yn ei chael yn anodd gwneud digon o **asesiadau**.



Mae llawer o blant angen **asesiad** diagnostig ar gyfer **awtistiaeth** neu **ADHD**, ac mae'r nifer yn tyfu.



Mae llawer o oedoilion angen **asesiad** ar gyfer awtistiaeth. Mae'r rhifau wedi bod yn uchel ers i'r **Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig** ddechrau yn 2017.



Dydyn ni ddim yn gwybod faint o oedolion sydd angen **asesiad diagnostig** ar gyfer **ADHD**. Ond mae **gwasanaethau iechyd meddwl** yn dweud bod y rhifau yn uchel.



Mae llawer o bobl yn aros am **asesiad diagnostig**.



I’w helpu nhw i wneud rhagor o **asesiadau diagnostig** mae gwasanaethau **niwroddatblygiadol** angen:

- rhagor o gefnogaeth gweinyddol



- offer TG da fel cyfrifiaduron newydd
- rhagor a gwell gofod i weithio ynddo



- timau staff mwy gyda gwahanol rolau swyddi
- rhagor o arian.



Mae llawer o blant yn gorfod aros am **asesiad diagnostig** cyn iddyn nhw gael y gefnogaeth maen nhw ei angen.



Dydy pobl gyda **ADHD** dim yn cael **diagnosis** yn ddigon cynnar, os o gwbl. Yn enwedig oedolion.



Dydy pobl ddim yn deall **ADHD** yn dda.



Mae oedolion gyda **ADHD** yn dibynnu ar **wasanaethau iechyd meddwl** ar gyfer **asesiad diagnostig**.



**Iechyd meddwl** ydy sut mae rhywun yn teimlo yn eu meddwl.

# Cefnogaeth



Roedd llawer o deuluoedd yn dweud ei bod yn anodd cael cefnogaeth.



Yn aml ychydig iawn o gefnogaeth mae'r Gwasanaethau **Niwroddatblygiadol** Plant  yn ei roi.




Mae teuluoedd yn dibynnu yn bennaf ar wasanaethua erill fel addysg a grwpiau gwirfoddol.



Mae'r **Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig** yn cynnig cefnogaeth i oedolion gydag awtistiaeth ac i rieni a gofalwyr.



Mae'n cynnig cefnogaeth cyn ac ar ôl **diagnosis**. Fel llinellau cymorth a sesiynau galw heibio.



Mae pobl angen rhagor o gefnogaeth a gwell cefnogaeth.

Mae rhai grwpiau o bobl yn ei chael yn fwy anodd i gael cefnogaeth. Er enghraifft:



- Oedolion gyda **ADHD** sydd angen cefnogaeth gyda phethau fel cysgu a pherthnasoedd.



- Plant ac oedolion sydd ddim yn cael **diagnosis** pan maen nhw'n cael **asesiad**.



- Plant ac oedolion gyda chyflyrau eraill fel **iechyd meddwl**.

# Problemau eraill




Mae pobl yn aros yn hir i gael **asesiad diagnostig.** Mae hyn yn meddwl dydy rhai pobl ddim yn cael y gefnogaeth maen nhw ei angen mewn pryd. Ac mae siawns o golli problemau yn gynnar.



Mae risg o golli staff medrus a phrofiadol yn y gwasanaethau **niwroddatblygiadol**.



Roedd llawer o bobl yn dweud ei bod yn anodd cael cefnogaeth hyd yn oed ar ôl cael **diagnosis.**



Mae'n gallu bod yn anodd i wasanaethau gyrraedd pobl o grwpiau Du, Asiaidd **lleiafrif ethnig**.

Efallai bod gan bobl o grwpiau **lleiafrif ethnig** gredoau, gwerthoedd a lliw croen gwahanol o'i gymharu gyda'r rhan fwyaf o'r bobl yn eu cymuned.




Ychydig iawn o wasanaethau **niwroddatblygiadol** sydd yn cynnig eu gwasanaethau yn Gymraeg.

# Y ffordd mae Gwasanaethau Niwroddatblygiadol wedi cael eu dylunio



Dydy gwasanaethau **niwroddatblygiadol** ddim wedi **canoli ar y person**.

Mae **canoli ar y person** yn meddwl bod gwasanaethau yn rhoi anghenion person ac yna yn gweithio i ateb yr anghenion hynny.



Mae rhagor o ganolbwyntio ar **awtistiaeth** nag ar **ADHD**. Yn enwedig i oedolion.




Mae **pontio** rhwng gwasanaethau yn gallu bod yn anodd.

**Pontio** ydy amser o newid mawr fel symud o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion.

Mae problemau gyda **gwasanaethau niwroddatblygiadol plant**. Fel:



- Maen nhw yn gallu ei chael yn anodd gweithio gydag achosion anodd. Er enghraifft plentyn gyda mwy nag 1 cyflwr **niwroddatblygiadol** neu gyflwr **niwroddatblygiadol** a chyflwr iechyd meddwl.



- Mae gan rhai dimau bobl sydd yn dod o wahanol wasaanethau. Mae hyn yn gallu bod yn fwy anodd i'w reoli. Weithiau dydy'r timau yma ddim yn gweithio mor dda i bobl.



- Dydyn nhw ddim yn cynnig digon o gefnogaeth cyn ac ar ôl **diagnosis**.

Mae problemau gyda'r **Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig**. Fel:



- Mae'r gwasanaeth yn ei chael yn anodd i roi cefnogaeth hir dymor.
- Maen nhw'n canolbwyntio yn unig ar **awtistiaeth**.
- Mae'r **asesiad diagnostig** ar gyfer **awtistiaeth** ac **ADHD** yn cael ei wneud gan wahanol wasanaethau.



Fydd newid ddim yn hawdd. Mae'n gallu cymryd llawer o amser ac arian.




Rhaid i ni feddwl am yr holl bethau da a drwg cyn gwneud unrhyw newidiadau.



Fe fyddwn ni angen arweinwyr da ar wahanol lefelau. Ffyrdd newydd o weithio a gwell dealltwriaeth o gyflyrau **niwroddatblygiadol**.

# Gwella pontio rhwng gwasanaethau




Rydych chi'n gallu edrych ar ganllaw newydd Llywodraeth Cymru ar Pontio a Throsglwyddo yma: [llyw.cymru/heb-ganfod-y-dudalen?_exception_statuscode](llyw.cymru/heb-ganfod-y-dudalen?_exception_statuscode)

Mae'r canllaw yn dweud bod rhaid i ni:



- cefnogi **pontio** i wasanaethau oedolion lle mae angen neu ddarganfod gwasanaethau eraill lle nad ydy hynny'n bosibl



- rhoi gwybodaeth a chefnogaeth i bobl ifanc a'u teuluoedd. Eu cynnwys nhw mewn gwneud penderfyniadau am y **pontio**



- dilyn ffordd **wedi'i ganoli ar y person** o weithio



- gwneud yn siŵr bod gwasanaethau plant ac oedolion yn gyfeillgar ac yn groesawgar



- edrych ar adborth gan bobl sydd yn defnyddio'r gwasanaethau.

# Nodau ar gyfer gwasanaethau niwroddatblygiadol a'r system ehangach



**Mae gweithgor wedi cael ei sefydlu i ddarganfod ffyrdd newydd o wella gwasanaethau niwroddatblygiadol.**




**Mae'r gweithgor wedi gosod 3 prif nod ar gyfer gwasanaethau niwroddatblygiadol:**

1. Fe ddylai pobl allu cael help a chefnogaeth yn gynnar.

2. Fe ddylai pobl allu cael **asesiad diagnostig** yn gynnar.

3. Fe ddylai pobl gael eu trin yn deg ac yn gyfartal.

**3 peth i gyflawni'r nodau yma:**



1. Fe ddylen ni ganolbwyntio ar help a chefnogaeth yn gynnar. A gweithio gyda'n gilydd gyda sectorau eraill fel iechyd, addysg, gofal cymdeithasol a grwpiau gwirfoddol.



2. Fe ddylen ni ddilyn ffordd mwy wedi'i **ganoli ar y person** o weithio.



3. Fe ddylen ni ganolbwyntio mwy ar beth sydd yn bwysig i'r bobl sydd yn defnyddio gwasanaethau. A gweithio gyda chyrff partner drwy rannu adborth gan bobl.

# Syniadau i wneud pethau'n well

## Help a chefnogaeth yn gynnar



Mae cael help a chefngaeth yn gynnar heb fod angen **diagnosis** yn gallu helpu gwasanaethau.

I wneud i hyn ddigwydd fe fydd angen i ni:



- Codi ymwybyddiaeth am gyflyrau **niwroddatblygiadol**.




- Cael hyfforddiant i staff mewn lleoedd fel ysgolion, gwasanaethau iechyd sylfaenol a grwpiau gwirfoddol.



- Gwneud yn siŵr bod pawb yn cael eu cynnwys. Cyrraedd allan i blant ac oedolion o grwpiau Du, Asiaidd a **lleiafrif ethnig**.



- Gwneud yn siŵr bod gwasanaethau yn cael eu cynnig yn Gymraeg.




- Pobl yn cael yr wybodaeth a’r gefnogaeth cywir o leoedd fel meddygon teulu, gwasanaethau cymdeithasol  a gwasanaethau Cyngor Gwybodaeth.



- Gwneud yn siŵr bod cefnogaeth yn cael ei gynnig yn yr un ffordd ar draws Cymru. I wneud i hyn ddigwydd fe fydd angen i ni ysgrifennu cynlluniau a chanllawiau, cael staff a chyllid.



- Fe ddylai gwasanaethau gwahanol weithio gyda’i gilyddd i wneud yn siŵr bod **pontio** yn well.



- Fe ddylai Llywodraeth Cymru ddarganfod pam bod pobl gyda chyflyrau **niwroddatblygiadol** yn ei chael yn anodd i gael help gyda phroblemau **iechyd meddwl**.

# Nodau

## Datblygu Gwasanaethau Niwroddatblygiadol Plant a gwella pontio


**Nodau tymor byr:**



- Rhagor o arian i wella gwasanaethau drwy bethau fel cefnogaeth gweinyddol, offer TG a gwell gofod.




- Fe ddylai pob gwasanaeth **niwroddatblygiadol** ysgrifennu cynllun  i Lywodraethy Cymnru a Byrddau Iechyd Lleol. Fe ddylai gael syniadau am sut i wella gwasanaethau a faint o arian fydden nhw ei angen i wneud hynny.




- Dilyn canllaw newydd Llywodraeth Cymru ar **Pontio a Throsg**: lwyddo:llyw.cymru/heb-ganfod-y-dudalen?_exception_statuscode

**Nodau tymor hir:**




- Cael y staff cywir gyda'r sgiliau cywir. Cael rhagor o staff mewn gwahanol rolau fel therapyddion a nyrsus arbenigol.



- Casglu gwybodaeth i ddeall yr heriau mae gwasanaethau yn eu wynebu. Hefyd edrych ar bethau fel profiadau pobl o'r gwasanaethau.



- Gwneud y gwasanaeth yn fwy gyda rhagor o staff, Creu rolau swyddi newydd i roi cyngor, cefnogaeth a hyfforddiant.



Fe fyddai hyn hefyd yn helpu i ddarparu gwell cefnogaeth cyn ac ar ôl **diagnosis**. Er enghraifft, nyrsus arbenigol sydd yn gallu helpu i roi cefnogaeth mewn ysgolion ac yn y cartref.



- Mae'n bwysig gweld beth sydd yn gweithio'n dda a beth sydd angen ei newid i wella gwasanaethau.



- Fe ddylai Llywodraeth Cymru a Byrddau Iechyd Lleol feddwl am sut y mae **Gwasanaethau Niwroddatblygiadol Plant** yn gallu cefnogi cyflyrau **niwroddatblygiadol** eraill.



- Os nad ydyn ni'n gallu gwella **pontio**, rhaid i ni feddwl am ffyrdd eraill o wneud pethau yn well.



Er enghraifft drwy gael **gweithgor cenedlaethol** i ddarganfod os ydyn ni'n gallu cael gwasanaeth **niwroddatblygiadol** ar gyfer pob oedran.



- Os nad ydyn ni'n gallu gwneud gwasanaethau i fod yn rhai sydd yn **canoli ar y person**, rhaid i ni feddwl am ffyrdd eraill o wneud pethau yn well.

# Datblygu'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig

**Nodau tymor byr:**



- Rhagor o arian i wella gwasanaethau drwy bethau fel cefnogaeth gweinyddol, offer TG a gwell gofod.




- Fe ddylai pob **Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig** ysgrifennu cynllun i **Lywodraeth Cymru, Byrddau Iechyd Lleol**. **Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol** a'r T**îm Awtistiaeth Cenedlaethol**. Fe ddylai ddweud faint o arian fydden nhw ei angen i wella gwasanaethau.

**Nodau tymor hir:**



- Cael y staff cywir gyda’r sgiliau cywir. Cael rhagor o staff mewn gwahanol rolau fel **seicolegwyr cynorthwyo**l a **nyrsus arbenigol**.



- Fe ddylai L**lywodraeth Cymru** neu’r **Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol** ddarganfod pam bod y gefnogaeth mae pob **Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig** yn ei ddarparu yn wahanol.




- Fe ddylai’r **Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig** a’r gwasanaethau **ADHD** weithio gyda’i gilydd pan mae angen. Er enghraifft pan fydd gan oedolyn **awtistiaeth** ac **ADHD** efallai.




- Os nad ydyn ni’n gallu gwella **asesiad diagnostig** a chefnogaeth i oedolion gyda mwy nag 1 cyflwr niwroddatblygiadol rhaid i ni feddwl am ffyrdd eraill o wneud pethau yn well.

# Darparu gwell cefnogaeth i oedolion gyda ADHD a rhieni a gofalwyr plant gyda ADHD

**Nodau tymor byr:**



- Cael ffordd glir o gael **asesiad diagnostig** ar gyfer **ADHD**. Fe ddylai pob sector fel iechyd ac addysg wybod sut i gyfeirio pobl am **asesiad** **ADHD**.



- Gwneud yn siŵr bod pobl gydag **ADHD** yn gallu cael help a chefnogaeth ar gyfer problemau **iechyd meddwl.**

**Nodau tymor hir:**



- Gyda rhagor o staff fe ddylai'r gwasanaeth allu cynnig cefnogaeth i rieni a gofalwyr plant gydag **ADHD**. Er enghraifft mewn ysgolion a thrwy grwpiau gwirfoddol.




- Fe ddylai Byrddau Iechyd Lleol ddechrau gwasanaeth newydd fel **gwasanaethau ADHD oedolion**. Fel bod rhagor o bobl yn gallu cael **asesiad diagnostig**.



- Gwneud yn siŵr bod oedolion gydag **ADHD** yn gallu cael cefnogaeth. Fe ddylai **Byrddau Iechyd Lleol** neu **Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol** edrych ar gael gweithwyr cefnogi ar gyfer gwasaneth **ADHD** oedolion.



- Neu fe fydd rhaid hyfforddi gweithwyr cefnogi'r **Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig** i gefnogi oedolion gydag **ADHD** hefyd.



Os nad ydy gwasanaethau yn gweithio gyda'i gilydd yn gwella profiadau pobl, rhaid i ni feddwl am ffyrdd eraill o wneud pethau yn well.

# Darparu asesiad a chefnogaeth i bobl gyda mwy nag 1 cyflwr niwroddatblygiadol

**Nodau tymor byr:**



- Fe ddylai Llywodraeth Cymru ddarganfod pam bod pobl gyda chyflyrau **niwroddatblygiadol** sydd hefyd gyda phroblemau **iechyd meddwl** yn ei chael yn anodd i gael help gan wasanaethau **iechyd meddwl**.

**Nodau tymor hir:**



- Cael gweithwyr iechyd proffesiynol profiadol a thimau sydd yn gallu asesu mwy nag 1 cyflwr **niwroddatblygiadol**.



- Fe ddylai Byrddau Iechyd Lleol wneud yn siŵr bod **Gwasanaethau Niwroddatblygiadol Plant**, y **Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig** a **Gwasanaethau Iechyd Meddwl** yn gweithio gyda'i gilydd.



- Fe ddylai Llywodraeth Cymru a’r Byrddau Iechyd Lleol edrych ar pa wasanaethau a  chefnogaeth sydd ar gael i:

  - pobl sydd wedi cael **diagnosis** o gyflyrau **niwroddatblygiadol** eraill

  - a phobl sydd heb gael **diagnosis** o unrhyw gyflwr **niwroddatblygiadol**.



Os nad ydy gwasanaethau sy’n gweithio gyda’i gilydd i gefnogi pobl gyda mwy nag 1 cyflwr **niwroddatblygiadol** yn gweithio, rhaid i ni edrych ar ffyrdd eraill o wneud i bethau weithio.

# Geiriau Anodd

## Asesiad diagnostig

Asesiad diagnostig ydy pan mae gweithwyr iechyd proffesiynol yn edrych ar bethau fel eich iechyd a'ch ymddygiad i weld os oes gennych chi gyflwr niwroddatblygiadol neu beidio.

Mae hyn yn cael ei wneud drwy asesiad fel profion, cwestiynau ac edrych drwy eich hanes.

Os oes gennych chi gyflwr rydych chi'n cael diagnosis.

## Canoli ar y person

Mae canoli ar y person yn meddwl bod gwasanaethau yn nodi anghenion person ac yna yn gweithio i ateb yr anghenion hynny.

## Iechyd Meddwl

Iechyd meddwl ydy sut mae rhywun yn teimlo yn eu meddwl.

## Lleiafrif ethnig

Mae pobl o grwpiau lleifarfi ethnig yn gallu dod o wahanol wledydd. Efallai bod ganddyn nhw gredoau, gwerthoedd, diwylliannau a lliw croen gwahanol o'i gymharu gyda'r rhan fwyaf o'r bobl yn eu cymuned.

## Niwroddatblygiadol

Cyflwr niwroddatblygiadol ydy pan mae'r ymennydd wedi datblygu mewn ffordd gwahanol. Mae hyn yn gallu effeithio ar ymddygiad, cof neu allu person i ddysgu. Mae'n meddwl pethau fel ADHD ac Awtistiaeth.

## Pontio

Mae pontio yn amser o newid mawr fel symud o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion.